# Polisi Cludiant Addysg Drafft

Mae Cyngor Gwynedd yn ymgysylltu gyda'r cyhoedd ar Bolisi Cludiant Addysg Drafft.

## Cefndir

Mae'r Polisi Cludiant Addysg sydd yn weithredol ar hyn o bryd yn dyddio'n ôl i 2009, ac er nad oes newid i'r gofynion statudol ynghlwm â darparu cludiant i ddysgwyr, mae angen adolygu'r polisi er mwyn:

**Sicrhau ein bod yn cyfarch gofynion a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru:**
Yr angen i ymgynghori o leiaf 12 mis cyn cyflwyno newid i ran neu pob elfen dewisol o'r polisi

**Sicrhau eglurder ar yr elfennau dewisol er tegwch i blant pobl ifanc a'u teuluoedd:**
Mae yna anghysondeb o ystyried cynnwys holl feysydd y polisi presennol

**Sicrhau bod y polisi'n addas i bwrpas ac yn eglur a hawdd i'w weithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael:**
Mae'r polisi wedi dyddio sy'n golygu nad oes modd gweithredu elfennau ohono bellach yn sgil gofynion a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae'r polisi yn amwys sy'n ei gwneud yn anodd i'r Awdurdod wneud penderfyniadau clir a chytbwys am gludiant addysg.

**Mae'r prif newidiadau a gynigir i'r Polisi Cludiant Addysg Drafft yn y meysydd canlynol:**

- Cynllun Seddi Gweigion
- Ysgolion ffydd
- Preswyliad Deuol
- Cludiant ôl-16

## Dogfennau perthnasol

- Polisi Cludiant Addysg Drafft
- Asesiad effaith

## Datganiad preifatrwydd

Byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol a gyflwynir wrth ymateb i bwrpas dadansoddi'r holiadur yn unig. Bydd yr ymatebion yn cael eu cadw am 5 mlynedd ar ôl dyddiad cau'r holiadur.
Mae hyn yn cael ei wneud er mwyn cydymffurfio ag erthygl 6(e) o'r UK GDPR, gan ein bod yn gofyn eich barn am wasanaeth statudol.

## Dyddiad cau: 20 Mawrth, 2026

# Adran A:

**A1.**

**Rydw i'n cwblhau'r holiadur hwn fel:**

- Rhiant / gwarchodwr ☐
- Llywodraethwr ☐
- Aelod o Staff Ysgol ☐
- Dysgwr o dan 16 ☐
- Dysgwr ôl-16 ☐
- Aelod o'r cyhoedd ☐
- Aelod etholedig ☐
- Arall ☐

Arall

[ ]

# Adran B: Cynllun Seddi Gweigion

**Beth sydd yn y polisi presennol?**
Os bydd sedd wag ar gael i ddysgwr ar fws ysgol neu dacsi ysgol, gall dysgwr wneud cais am hawl i brynu sedd bob tymor.

**Rhaid dilyn y meini prawf yma:**
- Bod seddi gwag ar gael;
- Nad oes angen i'r cerbyd newid llwybr ei daith arferol;
- Nad oes costau ychwanegol i Gyngor Gwynedd;
- Rhaid talu'r ffi gyfredol am sedd wag.

**Bydd y dysgwyr yma yn cael y cynnig cyntaf:**

- Dysgwyr sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU);
- Dysgwyr sy'n byw bellaf o'r ysgol neu safle ysgol.

**Beth sy'n wahanol yn y polisi newydd?**
Fydd y Cynllun Seddi Gweigion ddim yn bodoli yn y Polisi Cludiant Addysg newydd.

**B1. Beth yw eich barn am beidio cynnwys y Cynllun Seddi Gweigion yn y polisi newydd er mwyn sicrhau bod digon o seddi ar gael i blant deithio am ddim i'r ysgol?**

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Dim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Dim barn

**B2. Sylwadau**

# Adran C: Ysgolion Ffydd

**Beth sydd yn y polisi presennol?**
Nid oes cyfeiriad at ysgolion ffydd yn y polisi presennol ond dyma'r sefyllfa:

Mae gan Wynedd ddwy ysgol ffydd, sef Ysgol Ein Harglwyddes ac Ysgol Santes Helen. Yr ysgolion eu hunain yw'r awdurdodau mynediad yn hytrach na'r Cyngor, ac felly nid oes ffiniau dalgylch penodol ar eu cyfer, er bod yr ardaloedd a wasanaethir ganddynt yn seiliedig ar ardaloedd plwyfi Eglwysig hanesyddol mae'n debyg. Ar hyn o bryd, darperir cludiant i ddysgwyr ar sail yr ardaloedd hyn.

**Beth sy'n wahanol yn y polisi newydd?**
Bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi cludiant am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol:

- sy'n mynd i'r ysgol ffydd agosaf o ddewis y rhieni / gwarchodwr
- os ydynt yn byw o leiaf 2 filltir ond dim pellach na 5 milltir o'r ysgol ffydd addas agosaf
- lle mae eu rhieni / gwarchodwyr yn cyflwyno tystiolaeth o brawf ffydd

**C1.** **Beth yw eich barn am roi cludiant am ddim i ddysgwyr mewn dalgylch ysgol ffydd sy'n byw o leiaf 2 filltir ond dim pellach na 5 milltir o'r ysgol ffydd addas agosaf?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

**C2.** **Sylwadau**

# Adran D: Preswyliad Deuol

**Beth sydd yn y polisi presennol?**

Pan fydd rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am blentyn a bod y plentyn yn preswylio mewn dau gartref, sef cartrefi'r ddau riant ar wahân, bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant o'r prif gyfeiriad, sef y cyfeiriad y mae'r dysgwr yn ymgartrefu gan amlaf, gydag o leiaf un o'r cartrefi hynny yng Ngwynedd. Mae hyn ar yr amod mai'r ysgol a fynychir yw'r ysgol addas agosaf o'r brif preswylfa, neu y cytunir mai dyna'r ysgol fwyaf addas o ystyried lleoliadau'r ddwy breswylfa.

**Beth sy'n wahanol yn y polisi newydd?**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant i ddysgwyr a allai fod yn preswylio mewn mwy nag un cartref oherwydd eu hamgylchiadau teuluol o'r prif gyfeiriad yn unig, gydag o leiaf un o'r cartrefi hynny yng Ngwynedd. Ni ddarperir cludiant o unrhyw un o'r ddwy breswylfa os yw'n fwy na 5 milltir o'r ysgol addas agosaf.

**D1.**

**Beth yw eich barn am ddarparu cludiant am ddim o'r prif gyfeiriad yn unig?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

**D2. Beth yw eich barn am beidio darparu cludiant am ddim os yw y ddau gartref dros 5 milltir o'r ysgol addas agosaf?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

**D3. Sylwadau**

# Adran E: Cludiant Ôl-16

**Beth sydd yn y polisi presennol?**

**Mae'r Cyngor yn darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 llawn amser i'r sefydliadau addysgol canlynol:**

- Ysgolion uwchradd sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 & 13.
- Ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 & 13 & 14.
- Grŵp Llandrillo Menai - safleoedd Dolgellau, Pwllheli, Glynllifon, Safle Menai Parc Menai - Bangor, Llangefni a Chaernarfon.

**Beth sy'n wahanol yn y polisi newydd?**

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant dewisol y tu hwnt i oedran ysgol statudol lle mae dysgwyr cymwys sy'n byw yng Ngwynedd:

- yn byw 3 milltir neu bellach o'r ysgol neu'r coleg ôl-16 addas agosaf sy'n darparu'r cwrs.
- yn astudio'n llawn amser ac o dan 19 oed ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd y dilynwyd y cwrs.

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol uwchradd ddalgylch / addas agosaf a ddynodwyd gan yr Awdurdod i wasanaethu cyfeiriad cartref y dysgwyr yn unig, neu yn achos cyrsiau llawn amser Grŵp Llandrillo Menai, i'r safle coleg agosaf sy'n darparu'r cwrs yn unig.

**E1. Beth yw eich barn am barhau i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

**E2.**

**Beth yw eich barn am ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ddalgylch / addas agosaf sydd yn gwneud y cwrs yn unig?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

**E3.** **Beth yw eich barn am ddarparu cludiant am ddim i'r coleg agosaf sydd yn gwneud y cwrs yn unig?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

**E4.** **Sylwadau**

# Adran F: Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chyflyrau Meddygol

**Beth sydd yn y polisi presennol?**

Byddwn yn rhoi cludiant am ddim i ddysgwyr sydd gyda Chynllun Datblygu Unigol, ac weithiau dysgwyr sydd efo cyflwr meddygol neu anabledd.

**Beth sy'n wahanol yn y polisi newydd?**

Byddwn yn parhau i roi cludiant am ddim i ddysgwyr sydd gyda Chynllun Datblygu Unigol, ac weithiau dysgwyr sydd efo cyflwr meddygol neu anabledd, ond yn:

- adolygu ceisiadau ADY bob blwyddyn a gweld os oes modd teithio'n annibynnol wrth dyfu a datblygu
- hybu a gweithio tuag at deithio'n annibynnol ymysg yr holl ddysgwyr ADY

**F1.**

**Beth yw eich barn am adolygu ceisiadau ADY bob blwyddyn a gweld os gall y dysgwyr deithio yn annibynnol wrth dyfu a datblygu?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

**F2.**

**Beth yw eich barn am hybu a gweithio tuag at deithio’n annibynnol ymysg yr holl ddysgwyr?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Dim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

**F3. Sylwadau**

# Adran G: Dulliau Teithio Cynaliadwy

**Beth sydd yn y polisi presennol?**

Nid oes cyfeiriad at ddulliau teithio cynaliadwy yn y polisi presennol.

**Beth sy'n wahanol yn y polisi newydd?**

Bydd y cyngor yn hybu teithio llesol i'r ysgol a choleg, drwy gerdded a beicio a ffyrdd cynaliadwy eraill. Bydd hyn yn gwella iechyd, ffitrwydd ac yn lleihau niwed i'r amgylchedd ac yn ddull gwyrdd o deithio.

**G1.**

**Beth yw eich barn am hybu a gweithio tuag at arferion o deithio gwyrdd a iach ymysg yr holl ddysgwyr?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐
- Dim barn ☐

**G2. Sylwadau**

# Adran H: Sylwadau pellach

**H1.** **A oes gennych unrhyw sylwadau ar y newidiadau i Bolisi Cludiant Addysg Cyngor Gwynedd?**

# Adran I: Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar yr iaith Gymraeg.

**I1.**

**Yn eich barn chi, pa effeithiau y byddai'r polisi hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**I2.**

**Yn eich barn chi, sut fyddai modd llunio neu addasu'r polisi er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**I3.**

**Yn eich barn chi, a fyddai modd llunio neu addasu'r polisi er mwyn sicrhau nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

## Adran J: Effaith ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol

**J1.**

**Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y polisi hwn ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol?**

**Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu tlodi o bob math - tlodi ariannol, tlodi digidol, byw ymhell o wasanaethau ayyb.**

# Adran K: Amdanoch chi

Bydd ateb y cwestiynau canlynol yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod wedi casglu barn amrywiaeth o bobl ac yn rhoi cyfle i bawb o bob cefndir gymryd rhan.

Nid oes rhaid i chi eu hateb. Bydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn gwbl gyfrinachol. Ni fydd yn bosib i ni eich adnabod.

Dim ond i bwrpas dadansoddi ystadegau y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio.

**Os nad ydych chi eisiau llenwi'r cwestiynau pellach, dyma ddiwedd yr holiadur.**

**K1. Rhyw**

- Dyn / Gwryw ☐
- Dynes / Benyw ☐
- Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol ☐
- Gwell gennyf beidio â dweud ☐

**K2. Nodwch eich grŵp oedran**

- 15 oed neu'n iau ☐
- 16 - 24 oed ☐
- 25 - 34 oed ☐
- 35 - 44 oed ☐
- 45 - 54 oed ☐
- 55 - 64 oed ☐
- 65 - 74 oed ☐
- 75 - 84 oed ☐
- 85 + oed ☐
- Gwell gennyf beidio â dweud ☐

**K3.**

**Sut fyddech chi yn disgrifio eich sgiliau yn y Gymraeg?**

- [ ] Siarad, darllen ac ysgrifennu yn rhugl
- [ ] Siarad, darllen ac ysgrifennu, ond ddim yn hyderus iawn
- [ ] Siarad, darllen ac ysgrifennu – wrthi'n dysgu
- [ ] Siarad, ond ddim yn darllen nac ysgrifennu
- [ ] Ddim yn gallu siarad na deall Cymraeg
- [ ] Gwell gennyf beidio â dweud
- [ ] Arall

Arall

**K4.** **Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol?**

- [ ] Cymreig
- [ ] Seisnig
- [ ] Albanaidd
- [ ] Gwyddelig o Ogledd Iwerddon
- [ ] Prydeinig
- [ ] Gwell gennyf beidio â dweud
- [ ] Arall

Arall

**K5. Beth yw eich hil?**

- Gwyn ☐
- Du / Affricanaidd / Caribiaidd ☐
- Asiaidd ☐
- Sipsiwn / teithiwr Gwyddelig ☐
- Cymysg / sawl grŵp ethnig ☐
- Gwell gennyf beidio â dweud ☐
- Arall ☐

Arall

| |
|---|
| |

**K6. Beth yw eich crefydd?**

- Dim crefydd ☐
- Cristion ☐
- Mwslim ☐
- Bwdhaidd ☐
- Hindŵ ☐
- Iddewig ☐
- Sîc ☐
- Gwell gennyf beidio â dweud ☐
- Arall ☐

Arall

| |
|---|
| |

**K7.**

**Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau?**

**(Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn yma os ydych o dan 16 oed)**

- Heterorywiol / Strêt ☐
- Dyn hoyw ☐
- Dynes hoyw / lesbiaidd ☐
- Deurywiol (Bisexual) ☐
- Gwell gennyf beidio â dweud ☐
- Arall ☐

Arall

[ ]

**K8.**

**Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni? (er enghraifft rydych chi'n drawsrywiol neu trans ayyb)**

**(Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn yma os ydych o dan 16 oed)**

- Ydi ☐
- Nac ydi ☐
- Gwell gennyf beidio â dweud ☐

**K9.**

**Mae Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod unigolyn yn anabl os:**

**a. Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a**

**b. Bod gan y nam effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.**

**Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?**

- Ydw ☐
- Nac ydw ☐
- Gwell gennyf beidio â dweud ☐

**Diolch am eich ymateb.**